ATODLEN 3 Rheoliad 19(1)(a)

## YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN COFNODION ACHOSION

**1.** Mewn perthynas â phob aelod o'r teulu —

(a) ei enw llawn a'i gyfeiriad cartref;

(b) unrhyw enw y mae wedi'i adnabod wrtho o'r blaen;

(c) ei ddyddiad geni a'i ryw;

(ch) ei argyhoeddiad crefyddol (os oes un); a

(d) disgrifiad o'i darddiad hiliol, ei gefndir diwylliannol ac ieithyddol.

**2.** Enw'r awdurdod lleoli, os oes un, ac enw, cyfeiriad a Rhif ffôn cynrychiolydd i'r awdurdod hwnnw.

**3.** Enw, cyfeiriad a Rhif ffôn unrhyw weithiwr cymdeithasol sydd am y tro wedi'i ddyrannu i unrhyw aelod o'r teulu.

**4.** Telerau unrhyw orchymyn llys y mae'r teulu yn cael llety yn y ganolfan breswyl i deuluoedd odano.

**5.** Enw a chyfeiriad yr ymarferydd cyffredinol y mae aelodau'r teulu wedi'u cynnwys yn ei restr.

**6.** Enw, cyfeiriad a Rhif ffôn unrhyw ysgol, coleg neu weithle y mae unrhyw aelod o'r teulu'n eu mynychu.

**7.** Dyddiad ac amgylchiadau unrhyw ddigwyddiad difrifol sy'n cynnwys unrhyw aelod o'r teulu, a dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesurau disgyblu neu ataliad corfforol a ddefnyddiwyd ar unrhyw aelod o'r teulu.

**8.** Unrhyw anghenion arbennig o ran deiet, deintyddiaeth neu unrhyw rai eraill o ran iechyd, gan gynnwys manylion unrhyw alergeddau sydd gan unrhyw aelod o'r teulu.

**9.** Manylion unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu cadw ar gyfer unrhyw aelod o'r teulu yn y ganolfan breswyl i deuluoedd, a manylion unrhyw feddyginiaethau a roddir i unrhyw un o'r trigolion gan berson sy'n gweithio yn y ganolfan breswyl i deuluoedd.

**10.** Manylion unrhyw ddamwain neu salwch difrifol a gaiff unrhyw aelod o'r teulu tra bo'n cael ei letya yn y ganolfan breswyl i deuluoedd.

**11.** Y trefniadau ar gyfer cysylltiadau rhwng unrhyw blentyn sy'n cael ei letya yn y ganolfan breswyl i deuluoedd ac unrhyw berson perthnasol arall, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y cysylltiadau, a manylion unrhyw orchmynion llys sy'n ymwneud â chysylltiadau unrhyw berson â'r plentyn.

**12.** Manylion am unrhyw gyfnod pryd y bu unrhyw aelod o'r teulu yn absennol o'r ganolfan breswyl i deuluoedd, ac a gafodd yr absenoldeb ei awdurdodi gan y person cofrestredig neu beidio.

**13.** Copi o'r cynllun lleoliad ac unrhyw adolygiad ohono.

**14.** Cofnod o unrhyw arian neu bethau gwerthfawr a adneuir gan unrhyw aelod o'r teulu i'w cadw'n ddiogel, ynghyd â'r dyddiad y cafodd yr arian hwnnw ei dynnu neu y cafodd unrhyw bethau gwerthfawr eu dychwelyd.

**15.** Y cyfeiriad, a'r math o sefydliad neu lety, y mae'r teulu'n mynd iddo wrth ymadael â'r ganolfan breswyl i deuluoedd.